OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2167 (Cy. 234)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol Arberth a Heol Abergwaun, Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *12 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall (2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol Arberth a Heol Abergwaun, Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A40 yn Hwlffordd yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.